# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR PORTHMADOG**

Dyddiad ac Amser

**5.30 y.h., DYDD MAWRTH, 3YDD HYDREF, 2023**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol – Zoom**

**(Am fynediad cyhoeddus i'r cyfarfod, cysylltwch â ni)**

Pwynt Cyswllt

**Eirian Roberts**

**01286 679018**

**eirianroberts3@gwynedd.llyw.cymru**

(DOSBARTHWYD Dydd Llun, 25 Medi 2023)

## AELODAETH:

### Cyngor Gwynedd:

| | |
|---|---|
| Nia Wyn Jeffreys | Aelod Lleol |
| Gwilym Jones | Aelod Lleol |
| June Jones | Aelod Lleol |

### Aelodau Cyfetholedig:

| | |
|---|---|
| Aled Griffith | Cynrychioli Cyngor Tref Porthmadog |
| [I'w gadarnhau] | Cynrychioli Buddiannau Perchenogion Tir |
| [I'w gadarnhau] | Cynrychioli Buddiannau Harbwr |
| Dr John Jones-Morris | Cynrychioli Buddiannau Hamdden |
| Ian Roberts | Cynrychioli Buddiannau Diwydiannol |
| Robert Owen | Cynrychioli Buddiannau Masnachol |
| [I’w gadarnhau] | Cynrychioli Sefydliad Bac Achub Cricieth |

### Sylwedyddion:

| | |
|---|---|
| Desmond George | Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi |
| David Williams | Dirprwy – Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi |
| Stephen Tudor | Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Pwllheli |

# RHAGLEN

## 1. ETHOL CADEIRYDD

Ethol Cadeirydd ar gyfer 2023/24.

## 2. ETHOL IS-GADEIRYDD

Ethol Is-gadeirydd ar gyfer 2023/24.

## 3. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

## 5. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 6. COFNODION 4 - 8

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 7 Mawrth, 2023, fel rhai cywir.

## 7. DIWEDDARIAD AR FATERION RHEOLAETHOL YR HARBWR 9 - 19

Cyflwyno adroddiad yr Uwch Swyddog Harbyrau.

## 8. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Nodi y cynhelir cyfarfod nesaf Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog ar 27 Chwefror, 2024.

# PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR PORTHMADOG DYDD MAWRTH, 7 MAWRTH 2023

**YN BRESENNOL:**

Y Cynghorydd Gwilym Jones (Cyngor Gwynedd) (Cadeirydd)
Y Cynghorydd June Jones (Cyngor Gwynedd) (Is-gadeirydd)

Y Cynghorydd Nia Jeffreys (Cyngor Gwynedd) a Robert Owen (Cynrychiolydd Buddiannau Masnachol).

**HEFYD YN BRESENNOL:** Llyr Beaumont Jones (Pennaeth Cynorthwyol Economi a Chymuned), Bryn Pritchard-Jones (Rheolwr Gwasanaeth Morwrol), Arthur Francis Jones (Uwch Swyddog Harbyrau), Malcolm Humphreys (Harbwrfeistr Porthmadog) ac Eirian Roberts (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

**SYLWEDYDD:** Desmond George (Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi)

Llongyfarchwyd Bryn Pritchard-Jones ar ei benodiad yn Rheolwr Gwasanaeth Morwrol, ac fe'i groesawyd i'w gyfarfod cyntaf yn y rôl honno.

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Llywelyn Rhys (Cyngor Tref Porthmadog) a Sefydliad Bad Achub Cricieth.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**3. MATERION BRYS**

Ni dderbyniwyd unrhyw faterion brys.

**4. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 11 Hydref, 2022 fel rhai cywir.

**5. DIWEDDARIAD AR FATERION RHEOLI'R HARBWR**

Cyflwynwyd yr adroddiadau isod a gwahoddwyd adborth gan yr aelodau ar faterion diogelwch a materion gweithredol yr harbwr.

(1) Adroddiad yr Uwch Swyddog Harbwr yn rhoi diweddariad byr i'r pwyllgor ar faterion yr harbwr am y flwyddyn a ddaw i ben ar ddiwedd Mawrth 2023.

Codwyd materion o dan y penawdau isod:-

<u>Angorfeydd Porthmadog a Chofrestru Cychod</u>

Ymhellach i gynnwys yr adroddiad ysgrifenedig, nododd yr Uwch Swyddog Harbyrau fod yr archwiliad tanddwr o'r angorfeydd yn yr harbwr eisoes wedi'i gynnal. Canfuwyd bod angen newid 20 cadwyn (riser) a gobeithid y byddai'r gwaith yn cychwyn yn fuan, yn amodol ar ymrwymiadau'r contractwr angorfeydd.

Cod Diogelwch Morol Porthladdoedd

Ymhellach i gynnwys yr adroddiad ysgrifenedig, nododd yr Uwch Swyddog Harbyrau y byddai Gorchymyn Llongau Masnach (Badau Dŵr) 2023 yn dod yn weithredol ar y 31ain o Fawrth, ac y byddai'n rhoi mwy o bwerau i'r asiantaethau perthnasol i erlyn perchnogion a mordwywyr am gamddefnydd peryglus o fadau dŵr. Roedd ganddo gyfarfod gyda'r Heddlu ar 17 Mawrth i drafod y ffordd ymlaen, a byddai mewn sefyllfa i adrodd mwy i'r aelodau yn dilyn y cyfarfod hwnnw.

Nododd y Pennaeth Cynorthwyol Economi a Chymuned fod diffyg rheolaeth / gorfodaeth dros fadau dŵr personol wedi bod yn destun cryn bryder dros y blynyddoedd, a bod y newid yn y ddeddfwriaeth yn gam i'r cyfeiriad cywir. Byddai'r trefniadau a'r rheoliadau yn datblygu dros y misoedd a'r blynyddoedd nesaf, a gellid rhannu manylion pellach gyda'r aelodau maes o law.

Ychwanegodd y Rheolwr Gwasanaeth Morwrol y byddai'r ddeddfwriaeth newydd yn arf ychwanegol i'r Cyngor petai yna ddamwain neu ddigwyddiad yn y dyfodol. Pwysleisiodd hefyd fod gan y Cyngor system gofrestru effeithiol mewn lle yn barod, felly petai rhywun yn cael ei weld yn troseddu gyda bad pŵer, roedd yn bwysig nodi'r rhifau cofrestru er mwyn sicrhau bod modd adnabod yr unigolyn.

Materion Ariannol

Rhoddodd y Rheolwr Gwasanaeth Morworol esboniad llawn o gyllideb yr Harbwr 01/4/22 - 31/3/23, a gynhwyswyd fel atodiad i'r adroddiad.

Holwyd pam bod incwm yr Harbwr bron £10,000 yn is na'r targed. Mewn ymateb, nododd y Rheolwr Gwasanaeth Morwrol:-

- Nad oedd pob angorfa wedi ei llenwi, ac roedd yr incwm yn ddibynnol ar brysurdeb yn ystod y tymor.
- Nad oedd tymor 2022 mor brysur â thymor 2021, pan roedd yna gyfyngiad ar deithio dramor oherwydd Cofid.
- Yn gyffredinol, rhagwelid y byddai tua £6,000 o orwariant, ond roedd yna gostau sylweddol eraill yn debygol o godi yn y mis nesaf, megis pwrcasu cadwyni angorfeydd a chwblhau gwaith cynnal a chadw ar gwch yr harbwr, felly byddai'r gorwariant yn debygol o gynyddu rhywfaint erbyn diwedd y mis.

Ychwanegodd y Pennaeth Cynorthwyol Economi a Chymuned:-

- Ei bod yn debyg bod y gyllideb yn seiliedig ar niferoedd hanesyddol, a gwelwyd lleihad yn gyffredinol yn nifer y cychod ar draws harbyrau'r sir.
- Yn ogystal ag angorfeydd y Cyngor, bod yna adnoddau ychwanegol wedi'u datblygu yn Harbwr Porthmadog dros y blynyddoedd, ac yn benodol pontwns Clwb Hwylio Madog. Roedd rhai o gwsmeriaid hanesyddol y Cyngor wedi symud i'r ddarpariaeth pontwns, a bellach yn gwsmeriaid i'r Clwb Hwylio. Gan hynny, nid oedd y darlun yn adlewyrchiad llawn o'r holl gychod yn yr harbwr.

Ffioedd a Thaliadau 2023/24

Ymhellach i gynnwys yr adroddiad ysgrifenedig, nododd y Rheolwr Gwasanaeth Morwrol:-

- Y cyflwynwyd adroddiad i'r Uned Gyllid a disgwylid i'r ffioedd angorfeydd a badau pŵer gael eu cadarnhau yn eithaf buan.
- Bod lefel chwyddiant Harbwr Porthmadog yn 8.5%, sy'n golygu bod ein targed incwm hefyd wedi cynyddu 8.5%.
- Y cynigiwyd codi ffioedd Harbwr Porthmadog 6%, a disgwylid i weld a fyddai'r Aelod Cabinet yn cadarnhau'r ffioedd ai peidio. Yn amlwg, pe na lwyddid i gyrraedd y targed am y flwyddyn ariannol nesaf, byddai'n rhaid cwtogi'r gwariant.
- Y codwyd rhai ffioedd cysylltiedig â ffioedd lansio a chofrestru cychod. Roedd ffioedd cofrestru beiciau dŵr a chychod pŵer wedi codi 20%, sef o £50 i £60 am y flwyddyn, ac roedd y ffi flynyddol am gofrestru a hawlen lansio wedi codi o £150 i £170.
- Y cynigiwyd cadw'r ffi lansio ar £20 gan i'r ffi gael ei dyblu o £10 i £20 tua 3 blynedd yn ôl.
- Y cynigiwyd cynnydd yn y ffi lansio cychod llai na 10-marchnerth o £30 i £35.

Holwyd sut roedd ffioedd y Cyngor yn cymharu â ffioedd y pontwns, ac ati. Mewn ymateb, nododd yr Harbwrfeistr fod ffioedd y pontwns tua £1,000 yn uwch na ffioedd angorfeydd y Cyngor. Nododd yr Uwch Swyddog Harbyrau y byddai'n holi'r Clwb Hwylio am yr union ffigwr ac yn gyrru'r wybodaeth ymlaen i'r aelod.

Nododd y Pennaeth Cynorthwyol Economi a Chymuned ei bod yn anodd cymharu angorfeydd a phontwns, gan eu bod yn ddatblygiadau gwahanol iawn i'w gilydd, a bod y Cyngor yn croesawu'r ffaith bod y Clwb Hwylio wedi llwyddo i ddatblygu'r cynllun pontwns i uchafu ansawdd a chyfleusterau o fewn yr Harbwr.

(2) Adroddiad yr Harbwrfeistr yn crynhoi'r materion Mordwyo a Gweithredol a wnaed ac a brofwyd yn y cyfnod rhwng Hydref 2022 a Mawrth 2023, gynnwys materion cynnal a chadw.

Codwyd materion o dan y penawdau isod:-

Materion Gweithredol

Ymhellach i gynnwys yr adroddiad ysgrifenedig, nododd yr Harbwrfeistr nad oedd yr ymarferiad ymateb brys i lygredd olew ar raddfa fawr yn yr Harbwr wedi costio dim i'r Cyngor. Nododd hefyd fod y darparwyr cymeradwy wedi dysgu llawer o'r ymarferiad gan fod yr afon yn llifo'n reit gyflym drwy'r Harbwr.

Gwnaed sylw y byddai'n fuddiol petai'r aelodau lleol yn cael gwybod ymlaen llaw am ddigwyddiadau o'r fath yn yr Harbwr yn y dyfodol.

Cynnal a Chadw

Ymhellach i gynnwys yr adroddiad ysgrifenedig, nododd y Rheolwr Gwasanaeth Morwrol:-

- Y derbyniwyd cais gan Robert Owen (Cynrychiolydd Buddiannau Masnachol) i roi benthyg bad dŵr personol i'r Gwasanaeth Morwrol dros yr haf i'w gwneud yn haws patrolio sianel yr Harbwr a'r llinell lansio ym Morfa Bychan, gan nad yw'r bad dŵr personol yn ddibynnol ar y llanw fel y cwch patrôl Powercat.

- Bod yna rai materion i'w cadarnhau gyda'r Cyngor o safbwynt yswiriant, ac ati, cyn ymrwymo i hyn, ond y rhagwelid y gallai'r bad dŵr personol fod yn ased gwerthfawr i'r Gwasanaeth.
- Ni ragwelid y byddai'r trefniant mewn lle erbyn y Pasg, ond mawr obeithid y byddai mewn lle erbyn diwedd mis Mai.

Traeth Morfa Bychan

Ymhellach i gynnwys yr adroddiad ysgrifenedig, nododd y Rheolwr Gwasanaeth Morwrol fod trwydded wedi'i rhoi bellach ar gyfer cludo'r trawsnewidydd mawr i draeth Morfa Bychan ac ymlaen ar hyd y ffordd i orsaf bŵer Trawsfynydd. Hefyd, roedd cais wedi'i wneud i Gyfoeth Naturiol Cymru i osod traciau ar gyfer cludo'r trawsnewidydd ar draws y traeth.

Nododd y Pennaeth Cynorthwyol Economi a Chymuned, gan ei bod ychydig yn gynnar yn y tymor o ran darparu gwybodaeth fanwl ynglŷn â'r trefniadau ar gyfer cludo'r trawsnewidydd, y bwriedid darparu adroddiad byr i'r aelodau ymhen tua 6 wythnos yn rhoi diweddariad o'r sefyllfa.

**PENDERFYNWYD nodi a derbyn yr adroddiad.**

**6. ETHOL SYLWEDYDDION**

Gwahoddwyd y pwyllgor i ethol sylwedydd i dderbyn gwybodaeth, neu fynychu cyfarfodydd y 3 phwyllgor harbwr arall.

**PENDERFYNWYD ethol y canlynol i wasanaethu fel sylwedyddion ar y pwyllgorau isod:-**

**a) Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi – Y Cynghorydd Gwilym Jones**
**b) Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw - Y Cynghorydd June Jones**
**c) Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Pwllheli – Y Cynghorydd Gwilym Jones**

**7. CYFARFOD NESAF**

Nodwyd y cynhelir y cyfarfod nesaf ar 3 Hydref, 2023.

Nododd y Pennaeth Cynorthwyol Economi a Chymuned nad oedd angen i'r aelodau aros tan gyfarfod Hydref os oedd ganddynt fater yn codi rhwng nawr a hynny, a bod croeso iddynt gysylltu â Swyddfa'r Harbwr yn y cyfamser.

Holwyd a oedd bwriad i gynnal cyfarfod nesaf y pwyllgor ar Zoom, neu wyneb yn wyneb yn y Ganolfan ym Mhorthmadog, gan y deellid nad oedd pawb o'r aelodau yn gyffyrddus yn defnyddio'r dechnoleg. Mewn ymateb, nododd y Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth mai polisi'r Cyngor ar hyn o bryd, yn unol â Rhan 3 Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, oedd i gynnal cyfarfodydd y Cyngor Llawn, y Pwyllgor Cynllunio, y Cabinet a phwyllgorau craffu yn unig yn hybrid, gyda phob pwyllgor arall yn parhau yn rhithiol.

*******************

Ar derfyn y cyfarfod, cyfeiriodd Robert Owen (Cynrychiolydd Buddiannau Masnachol) at y diffyg aelodau cyfetholedig ar y pwyllgor gan nodi y dymunai gynnig enw Richard Owen ar gyfer un o'r seddau gweigion. Cytunwyd y byddai'r swyddogion yn trafod yr aelodaeth ymhellach, ac yn gweld pa fylchau eraill sydd angen eu llenwi hefyd.

Dechreuodd y cyfarfod am 5.30 y.h. a daeth i ben am 6.10 y.h.

**CADEIRYDD**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog** |
| **DYDDIAD** | **3 Hydref 2023** |
| **TEITL** | **Diweddariad ar Faterion Rheoli'r Harbwr** |
| **AWDUR** | **Uwch Swyddog Harbyrau** |

**1. Cyflwyniad.**

1.1 Prif swyddogaeth y Pwyllgor yw ystyried, trafod a chynghori ar faterion sy'n ymwneud â rheoli, diogelu a datblygu'r Harbwr a derbyn sylwadau'r Aelodau ar faterion sy'n ymwneud â Harbwr Porthmadog.

1.2 Diben yr adroddiad hwn yw rhoi diweddariad bras i'r Pwyllgor ar faterion yr harbwr ar gyfer y cyfnod rhwng mis Mawrth 2023 a mis Hydref 2023, er mwyn derbyn adborth gan yr aelodau ar faterion diogelwch a materion gweithredol yr Harbwr.

1.3 Mae Pwyllgor Harbwr Porthmadog yn Bwyllgor Harbwr statudol, a sefydlwyd yn unol ag Adran 6(2) (a-j) Gorchymyn Addasu Harbwr Porthmadog 1998. Yn ôl y gorchymyn, mae pymtheg (15) aelod yn gwasanaethu ar Bwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog. Ceir rhestr gynhwysfawr o grwpiau a sefydliadau sy'n cael eu cynrychioli ar y pwyllgor Harbwr yng Ngorchymyn yr Harbwr.

1.4 Sefydlwyd Pwyllgorau Harbwr Abermaw, Aberdyfi a Phwllheli dan adran 102(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

**2. Angorfeydd Porthmadog a Chofrestru Cychod**

2.1 Mae 106 o gychod wedi bod ar angorfeydd blynyddol yn harbwr Porthmadog yn 2023. Mae hyn yn cymharu â 104 o gychod ar angorfeydd yn 2022.

2.2 Bu cynnydd bychan iawn yn nifer y cwsmeriaid dros y flwyddyn ddiwethaf yn harbwr Porthmadog. Y gobaith yw y bydd y duedd hon yn parhau yn 2024. Mae'r sefyllfa economaidd gyffredinol ac yn benodol, y costau byw presennol, yn parhau i fod yn ffactor wrth ddenu cwsmeriaid i'r harbwr.

2.3 Gyda nifer fechan o eithriadau, mae'r rhan fwyaf o'r cyhoedd sy'n dymuno lansio cychod pŵer i ddyfroedd Arfordir Gwynedd bellach yn cofrestru eu cychod pŵer ar-lein, drwy wefan Cyngor Gwynedd. Yn cynnwys y rhai a gofrestrodd ar bapur, cofrestrwyd 1269 o gychod pŵer a 1240 o gychod dŵr personol yng Ngwynedd y tymor hwn.

**3. Cod Diogelwch Morol Porthladdoedd.**

3.1. Mae'r Cod Diogelwch Morol Porthladdoedd (PMSC) yn amlinellu'r safon genedlaethol ar gyfer pob agwedd o ddiogelwch morol porthladdoedd. Ei nod yw gwella diogelwch i bawb sy'n defnyddio neu'n gweithio yn amgylchedd morol porthladdoedd. Mae'n berthnasol i bob Awdurdod Harbwr Statudol.

Mae'r Cod yn cynrychioli arfer dda a gydnabyddir gan amrediad eang o randdeiliaid yn y diwydiant ac mae Cyngor Gwynedd yn deall y gall peidio â chadw at arfer dda fod yn arwydd o awdurdod harbwr sy'n torri dyletswyddau cyfreithiol penodol.

3.2 Mae'r Gwasanaeth yn adolygu'r Cod Diogelwch Morol yn rheolaidd ar gyfer yr harbyrau dan ei awdurdodaeth er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i gydymffurfio'n llawn gyda gofynion presennol y Cod. Fel

rhan o'r broses adolygu, mae'n angenrheidiol derbyn sylwadau a barn Aelodau'r Pwyllgor Ymgynghorol ar ba mor addas yw'r Cod Diogelwch Morol ac i dderbyn sylwadau'n rheolaidd ar ei gynnwys, yn benodol o ran perthnasedd gyda gweithgarwch yr harbwr, cymhorthion mordwyo, addasrwydd is-ddeddfau, materion diogelwch a gwaith dydd-i-ddydd cyffredinol yn Harbwr Porthmadog.

**4. Materion Staffio.**

Nid yw'r lefel staffio yn harbwr Porthmadog wedi newid ers yr adroddiad diwethaf i'r Pwyllgor, gyda'r Harbwrfeistr, Mr Malcolm Humphreys, yn cael ei gefnogi gan y cymhorthydd, Mr Richard Hughes. Yn ystod beth fu'n haf prysur, mae staff yr harbwr hefyd wedi cynorthwyo ac wedi gweithio gyda staff yn harbwr Abermaw ac ar y traeth ym Morfa Bychan.

4.1 Mae'r Gwasanaeth hefyd yn gallu galw ar staff sydd wedi'u lleoli yn harbyrau Abermaw ac Aberdyfi i gynorthwyo gydag unrhyw waith yn harbwr Porthmadog os oes angen.

**5. Materion Ariannol.**

5.1 Darperir crynodeb bras o gyllidebau'r harbwr a'r sefyllfa ariannol gyfredol hyd at ddiwedd y chwarter gan y Prif Swyddog Morwrol.

5.2 Yn ystod y cyfnod roedd yn rhaid ymrwymo adnoddau ariannol ar gyfer yr hyn a ganlyn;

- Cynnal a chadw cymhorthion mordwyo a goleufeydd
- Prynu a chynnal a chadw offer a chyfarpar yr harbwr
- Archwilio a chynnal a chadw angorfeydd y Cyngor
- Cynnal a chadw a gweithredu cwch patrôl Powercat yr Harbwr
- Cynnal a chadw'r cwch 'Dwyfor'. Buddsoddi i gynnal a chadw'r cwch er mwyn diwallu gofynion y Cod Ymarfer a chynnal y cyfarpar codi.
- Cynnal a chadw tiroedd a meinciau

5.3 **Ffioedd a Thaliadau. 2024/25.**

O ran ffioedd a thaliadau arfaethedig ar gyfer Harbwr Porthmadog, ynghyd â ffioedd lansio ar gyfer Cychod Pŵer a Chychod Dŵr Personol ar gyfer tymor 2024/25, o'r blaen mae'r Gwasanaeth wedi addasu'r ffioedd yn unol â chyfradd chwyddiant ar y pryd. Er hynny, hyd yma, ni wnaed unrhyw benderfyniad ynghylch lefel y ffioedd ar gyfer y tymor nesaf.

**6. Adroddiad yr Harbwrfeistr.** Bydd Harbwrfeistr Porthmadog yn darparu crynodeb o'r materion Mordwyo a Gweithredol a wnaed ac a brofwyd yn y cyfnod rhwng mis Mawrth 2023 a mis Hydref 2023, gan gynnwys materion cynnal a chadw. Mae copi o'i adroddiad wedi'i atodi.

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog** |
| **DYDDIAD** | **3 Hydref 2023** |
| **TEITL** | **Adroddiad yr Harbwrfeistr** |
| **AWDUR** | **M.Humphreys Harbwrfeistr Porthmadog** |

**H 1 Materion Mordwyo**

1.1 Mae'r sianel fordwyo i harbwr Porthmadog wedi cael ei monitro gan staff yr harbwr dros yr haf. Mae'r sianel i'r harbwr o gyfeiriad y môr wedi symud o gyfeiriad Harlech ac erbyn hyn yn arwain fwy tuag at Gricieth, ynghyd â lleoliad y bwi Mordwyo (Fairway).

1.2 Fel yn y blynyddoedd blaenorol, mae cwrs y sianel fordwyo yn parhau i fod yn ddeinamig iawn. Mae symudiad y banciau tywod yn y sianel fordwyo yn ystod yr haf wedi golygu bod angen i staff yr harbwr adleoli rhai o'r cymhorthion mordwyo.

1.3 Bydd staff yr Harbwr yn parhau i fonitro llwybr y sianel a symud y cymhorthion mordwyo pan a phryd fo angen i sicrhau eu bod yn darparu'r llwybr mwyaf diogel i mewn ac allan o'r harbwr.

1.3.1 Mae'r Gwasanaeth yn hysbysu bod yr holl farciau mordwyo angenrheidiol ar hyn o bryd yn eu lle ac nid oes unrhyw "Hysbysiad i Forwyr" yn weithredol yn yr Harbwr yn awr.

1.4 Hoffai'r Gwasanaeth atgoffa morwyr o'r angen i fordwyo'r sianel 1.5 awr naill ochr i'r penllanw wrth fordwyo cwch gyda dyfnder sy'n fwy na 1.5 metr.

1.5 Rydym hefyd yn atgoffa morwyr y dylid cysylltu â swyddfa'r harbwr cyn dod i mewn neu adael yr harbwr, i dderbyn y wybodaeth ddiweddaraf am y tywydd a mordwyo. Bydd newidiadau i unrhyw gymhorthion mordwyo yn cael eu cylchredeg drwy Hysbysiad Lleol i Forwyr.

**H 2 Materion Gweithredol**

2.1 Mae symudiadau'r cychod wedi parhau drwy'r haf, gyda chychod sy'n ymweld yn cael eu gosod ar yr angorfeydd 'trot' yn yr harbwr mewnol a'u hangori i'r pontynau sy'n eiddo i Glwb Hwylio Madog.

2.2 Arweiniodd tywydd gwyntog annhymhorol gyda gwyntoedd de-orllewinol a glaw trwm ar 15 Gorffennaf i gyn-gwch bysgota a angorwyd ger ochr wal y cei i orlifo a suddo'n rhannol. Ymatebodd staff yr harbwr yn brydlon i'r sefyllfa ond ni fedrent atal swm bach o danwydd disel rhag mynd o'r cwch i ddyfroedd yr harbwr, cyn defnyddio bŵm amsugnol arnofiol a osodwyd o amgylch y cwch.

2.2.1 Gyda chymorth gweithwyr yr harbwr, cafodd y dŵr ei bwmpio o'r cwch fel ei fod yn arnofio eto, gyda'r bŵm yn aros yn ei le o amgylch y cwch hyd nes y gellid adnabod beth oedd ffynhonnell y dŵr a dreiddiodd.

2.2.2 Cafodd Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau a Chyfoeth Naturiol Cymru wybod am y digwyddiad, a dilynwyd yr holl weithdrefnau gweinyddol angenrheidiol yn unol â'r gofynion. Caniatawyd i'r gollyngiad wasgaru'n naturiol ac nid oedd angen cymryd unrhyw gamau pellach.

2.2.3 Ar hyn o bryd mae'r Gwasanaeth yn gweithio gyda pherchennog y cwch a syrfëwr morol i atal digwyddiad tebyg rhag digwydd, ac mae'r cwch wedi'i ail-leoli ger llithrfa'r harbwr i'r diben hwn.

2.2.4 Ar yr un diwrnod, achosodd y tywydd i gwch hwylio dorri'n rhydd o'r angorfa yn yr harbwr a bachodd llinell angori bwa cwch arall yn yr harbwr, gan beri i'r cwch hwnnw fynd yn rhydd o amgylch angorfa'r starn. Yn dilyn hynny, sicrhawyd y ddau gwch yn ôl ar eu hangorfeydd perthnasol heb niwed.

2.3 Dymuna'r Gwasanaeth ddiolch i gwmni Robert Owen Marine Porthmadog, am ddarparu badau dŵr personol. Mae'r badau wedi cynorthwyo staff morwrol yn fawr i oruchwylio gweithrediadau diogel ar safle lansio cychod ym Morfa Bychan ac yn sianel Porthmadog.

**H 3 Cynnal a Chadw**

3.1 Cyn dechrau'r tymor prysur, gwnaed gwaith cynnal a chadw i angorfeydd yr harbwr gan gontractwr angorfeydd lleol. Roedd y gwaith a wnaed gan y contractwr ar gost net i'r gwasanaeth o £2,100.00, gyda chost y gadwyn amnewid a hualau cysylltiedig yn £3,894.00.

3.1.1 Dros gyfnod y gaeaf sydd i ddod, cynhelir archwiliad o'r cadwyni daear yn yr harbwr, gyda rhannau o'r gadwyn a dreuliwyd yn cael eu newid.

3.2 Mae cwch patrôl Powercat yr harbwr bellach wedi cael dwy injan newydd ar ddechrau'r tymor am gost net o £12,293.00 i'r Gwasanaeth. Mae'r cwch wedi gweithredu drwy gydol yr haf, gan gynnal patrolau o'r sianel fordwyo pryd bynnag y bo modd.

3.3 Yn ystod cyfnod y gaeaf bydd cwch yr harbwr 'Dwyfor' yn cael ei hwylio i Bwllheli a'i thynnu allan o'r dŵr i osod propeler newydd. Bydd y cwch yn cael ei ailwampio ymhellach bryd hynny.

3.4 Yn amodol ar y cyllid sydd ar gael, bydd y Gwasanaeth yn newid arwyneb lloc yr harbwr yng nghefn swyddfa'r harbwrfeistr. Bydd concrit yn disodli'r arwyneb garw presennol, a fydd yn cynorthwyo'n fawr gyda symudiadau trelar yn y lloc.

3.5 Mae meinciau o amgylch yr harbwr yn parhau i gael eu hadnewyddu gyda rhagor o waith i'w gwblhau o hyd. Mae'r gwasanaeth yn parhau i dderbyn ceisiadau i leoli meinciau o amgylch yr harbwr ond dim ond lle cyfyngedig sydd ar gael.

## H 4 Materion Eraill

4.1 Cyn dechrau mis Gorffennaf, cynorthwyodd staff yr harbwr gyda pharatoadau ar draeth Morfa Bychan, i dderbyn bad camlas mawr o'r enw 'Terra Marique', oedd yn cludo cargo trawsnewidydd trydanol ar gyfer Gorsaf Bŵer Trawsfynydd.

4.1.1 Ar ôl teithio o Rotterdam gyda chymorth cwch tynnu, llwyddodd y cwch camlas i lanio'n llwyddiannus ar y tywod ym Morfa Bychan ar lanw boreol 5 Gorffennaf. Ar ôl dadlwytho'r cargo, gadawodd y cwch camlas y traeth ar lanw gyda'r nos y diwrnod hwnnw. Yn dilyn hynny, symudwyd y newidydd o'r traeth i'r ffordd i gyrraedd gorsaf bŵer Trawsfynydd.

4.2 Yn ystod yr haf, bu'n rhaid i staff yr harbwr gysylltu â Chyfoeth Naturiol Cymru ac adrodd am wastraff hylif lliw oedd yn mynd i ddyfroedd yr harbwr. Ar ôl ymchwilio, nododd staff bod yr hylif yn dod o'r bibell arllwys a leolir ger y bont ffordd yn rhan ogleddol yr harbwr. Mae'r adroddiadau wedi'u dogfennu a deallir bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn ymchwilio i'r mater.

4.3 **Borth-y-gest.** Bydd giatiau amddiffyn y môr sydd wedi'u lleoli yn Borth-y-gest yn cael eu cynnal gyda chymorth gweithiwr metel lleol. Hoffai'r Gwasanaeth atgoffa defnyddwyr yr harbwr o'r angen i'r giatiau aros wedi cau yn ystod y gaeaf.

## H5 Digwyddiadau

5.1 Cynhaliwyd y digwyddiadau a ganlyn yn yr harbwr yn ystod yr haf;


- Diwrnod Bad Achub yr RNLI
- Digwyddiadau Cychod Hir Celtaidd a gynhaliwyd gan Glwb Hwylio Madog
- Digwyddiad Beiciau Modur Hynafol

5.2 Dymuna'r Gwasanaeth hysbysu trefnwyr digwyddiadau i'r dyfodol o'r angen i roi gwybod ymlaen llaw i swyddfa'r harbwr. Bydd hyn yn helpu'r Gwasanaeth i benderfynu os dylid eu hawdurdodi, gyda phrosesau gweinyddol ac o ran staff.

| HARBWR PORTHMADOG | Perfformiad Ariannol am y cyfnod 1 Ebrill 2023 at 31 Mawrth 2024 - Adolygiad Awst 2023 | | |
|---|---|---|---|
| GRWP | CYLLIDEB 1/4/23 at 31/3/24 | GWARIANT A RHAGWELIR 1/4/23 at 31/3/24 | GOR (TAN) |
| Gwithwyr | 65,947 | 70,630 | 4,683 |
| | | | |
| Eiddo | 26,970 | 15,296 | (11,674) |
| | | | |
| Trafnidiaeth | 860 | 627 | (233) |
| | | | |
| Gwasanethau a Cyflenwadau | 12,900 | 18,927 | 6,027 |
| | | | |
| Incwm | (80,140) | (74,174) | 5,966 |
| | | | |
| **Cyfanswm** | **26,537** | **31,305** | **4,769** |

# Dashfwrdd Rheoli Perfformiad Economi a Chymuned

## Cyfanswm nifer cwsmeriaid (cytundebau blynyddol) ar angorfeydd yn harbyrau Gwynedd





| | 2021/22 | 2022/23 | Uchelgais 2023/24 | Ionawr | Chwefror | Mawrth | Ebrill | Mai | Mehefin | Gorffennaf | Awst | Medi | Hydref | Tachwedd | Rhagfyr | Ionawr | Chwefror | Mawrth |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | 2023 | | | | | | | | | | | | 2024 | | |
| Nifer cwsmeriaid Aberdyfi | 76 | 72 | 72 | | | | 13 | 73 | 73 | 73 | 73 | 73 | | | | | | |
| Nifer cwsmeriaid Abermaw | 54 | 64 | 64 | | | | 26 | 70 | 70 | 71 | 71 | 71 | | | | | | |
| Nifer cwsmeriaid Porthmadog | 112 | 104 | 104 | | | | 61 | 72 | 80 | 93 | 99 | 106 | | | | | | |

**Sylwadau:** Nod ac amcan yw ceisio cynnal nifer cwsmeriaid a sicrhau cefnogaeth a ffyddlondeb cwsmeriad i barhau i angori yng Ngwynedd. Mae'r wasgfa ariannol yn golygu fod nifer o gwsmeriaid wedi eu denu i Wynedd gan, yn gyffredinol, fod y gost yn is. Rhai cwsmeriaid hefyd wedi dychwelyd yn dilyn diwedd i gyfyngiadau Covid. Mae trefn ceisio am angorfa ar lein yn weithredol ers Ebrill 2023.

# Dashfwrdd Rheoli Perfformiad Economi a Chymuned







| | |
|---|---|
| **Sylwadau:** | Roedd yr holiadur ar-lein yn 'fyw' o fis Gorffennaf 2023. Roedd 89% o'r ymatebwyr o'r farn fod eu profiad o'r harbyrau yn 'Dda Iawn' (56%) neu'n 'Dda' (33%) gyda mwyafrif yn nodi fod yr harbyrau yn lan a thaclus a bod y staff yn glên, proffesiynol a gwybodus. Doedd neb o'r farn fod yr harbyrau'n 'Wael' neu'n 'Wael Iawn'. Yn anffodus roedd y nifer o ymatebwyr yn isel ac felly er mwyn cael darlun mwy cywir a manwl byddem yn gyrru linc i'r holiadur i bob daliwr angorfa pan fyddem yn gohebu gyda hwy yn 2024 |

| | |
|---|---|
| **Sylwadau:** | Mae'r cymorthyddion oddi fewn Categori 3 Cymhorthyddion Mordwyo Cenedlaethol. Mae cymhorthydd mordwyo morglawdd Tywyn wedi ei ail-leoli ers mis Mawrth 2023 ac fe newidwyd marc mordwyo grwyn 1 traeth Abersoch yn ystod mis Mai 2023. |


Dashfwrdd Rheoli Perfformiad Economi a Chymuned




| | |
|---|---|
| Sylwadau | Roedd tri chwarter o'r ymatebwyr (75%) o'r farn fod eu profiad o'r traethau yn 'Dda Iawn' (59%) neu'n 'Dda' (16%), ac o'r 177 ymatebodd nododd 53 (neu 30%) fod Wardeniaid Traethau yn gymwynasgar, proffesiynol a gwybodus. Derbyniwyd hefyd sylwadau cadarnhaol am ddiogelwch y traethau, yn benodol rheolaeth effeithiol o fadau pŵer, hygyrchedd, glendid ac ansawdd dŵr ymdrochi. Nododd rhai bod cŵn ar draethau yn broblemus, bod diffyg darpariaeth biniau sbwriel mewn rhai safleoedd a bod angen gwella ansawdd glendid a chyflwr rhai toiledau cyhoeddus. Roedd rhai o'r ymatebwyr hefyd o'r farn bod y traethau yn "rhy brysur" gyda nifer yn nodi bod gormod o 'jet sgis' yn ein prif gyrchfannau. |

# Rheoli Perfformiad Economi a Chymuned

| Mesurydd | Adrodd Lefel | Amlder | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 | Uchelgais 2023/24 | Gwir 2023/24 | 2023 Ionawr | Chwefror | Mawrth | Ebrill | Mai | Mehefin | Gorffennaf | Awst | Medi | Sylwadau/Rheswm dros y perfformiad |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm nifer cwsmeriaid (cytundebau blynyddol) ar angorfeydd harbyrau Cyngor Gwynedd.** | Adran | Misol | | | | **240** | **250** | | | | | | | | | | Nod ac amcan yw ceisio cynnal nifer cwsmeriaid a sicrhau cefnogaeth a ffyddlondeb cwsmeriad i barhau i angori yng Ngwynedd. Mae'r wasgfa ariannol yn golygu fod nifer o gwsmeriaid wedi eu denu i Wynedd gan, yn gyffredinol, fod y gost yn is. Rhai cwsmeriaid hefyd wedi dychwelyd yn dilyn diwedd i gyfyngiadau Covid. Mae trefn ceisio am angorfa ar lein yn weithredol ers Ebrill 2023. |
| Nifer cwsmeriaid Aberdyfi | Adran | | 47 | 76 | 72 | 72 | 73 | | | | 13 | 73 | 73 | 73 | 73 | 73 | Nifer o gwsmeriaid cychod pŵer wedi penderfynu cael angorfa yn lle lansio'n dyddiol. Hyn wedi cyfrannu at gadw nifer angorfeydd yn weddol sefydlog. Hefyd wedi llwyddo i ddenu nifer o gwsmeriaid newydd. Mae newid yn y sianel a chasgliadau tywod yn yr harbwr yn golygu fod llai o lefydd addas i leoli angorfeydd na'r flwyddyn flaenorol. |
| Nifer cwsmeriaid Abermaw | Adran | | 31 | 54 | 64 | 64 | 71 | | | | 26 | 70 | 70 | 71 | 71 | 71 | |
| Nifer cwsmeriaid Porthmadog | Adran | | 64 | 112 | 104 | 104 | 106 | | | | 61 | 72 | 80 | 93 | 99 | 106 | Niferoedd sefydlog. Yr harbwr wedi llwyddo i ddenu nifer o gwsmeriaid newydd, er fod nifer o gwsmeriaid wedi rhoi gorau i'w hangorfeydd oherwydd oedran neu iechyd. Nifer o gwsmeriaid yn parhau i gymryd angorfa ar pontŵn Clwb Hwylio Madog. |
| **Boddhad Cwsmer Harbyrau Gwynedd %** | Gwasanaeth | Blynyddol | | | | | | | | | | | | | | | |
| *Da Iawn* | | | | | | | | | | | | | | | | 56% | |
| *Da* | | | | | | | | | | | | | | | | 33% | |
| *Boddhaol* | | | | | | | | | | | | | | | | 0% | |
| *Gwael* | | | | | | | | | | | | | | | | 0% | |
| *Gwael Iawn* | | | | | | | | | | | | | | | | 0% | |
| *Heb Ymateb* | | | | | | | | | | | | | | | | 11% | |
| **Nifer Gychod Pwer / Badau Dŵr Personol wedi eu trwyddedu. Gwybodaeth er cadarnhau fod yna sutem cofrestru penodol ar gyfer adnabod pob cwch** | Gwasanaeth | | 1680 | 2,434 | 2,380 | 2,380 | 2,509 | | | | 921 | 1,759 | 1,876 | 2,204 | 2,498 | 2,509 | Nod ac amcan cofrestru yw sicrhau cynydd yn niferoedd o fadau pwer sydd wedi cofrestru er ceisio sicrhau bod pob bad ar arfordir Gwynedd yn arddangos hawlen cofrestru Cyngor Gwynedd. |
| **Canran Cymhorthion Mordwyo o fewn ardal harbwr ac ar arfordir Cyngor Gwynedd a fu ar gael ar eu safleoedd a rhain yn unol ac archwiliad blynyddol** | Gwasanaeth | | 98% | 98% | 98% | 100% | 100% | 98.00% | 98.00% | 98.00% | 100.00% | 100.00% | | | | | Mae'r cymorthyddion oddi fewn Categori 3 Cymhorthyddion Mordwyo Cenedlaethol. Mae cymhorthydd mordwyo morglawdd Tywyn wedi ei ail-leoli ers mis Mawrth 2023 ac fe newidwyd marc mordwyo grwyn 1 traeth Abersoch yn ystod mis Mai 2023. |
| **% Boddhad Cwsmer Traethau Gwynedd** | Adran | Blynyddol | | | | | | | | | | | | | | | |
| *Da iawn* | | | | | | | | | | | | | | | | 59% | |
| *Da* | | | | | | | | | | | | | | | | 16% | |
| *Boddhaol* | | | | | | | | | | | | | | | | 12% | |
| *Gwael* | | | | | | | | | | | | | | | | 7% | |
| *Gwael Iawn* | | | | | | | | | | | | | | | | 5% | |
| *Heb Ymateb* | | | | | | | | | | | | | | | | 1% | |


Harbwr Porthmadog Harbour
Mae'r sianel yn newid ei chwrs yn rheolaidd, cynghorir bod morwyr yn cysylltu efo'r Harbwrfeistr ym Mhorthmadog am y wybodaeth ddiweddaraf
The channel changes it's course on a regular basis, it's adviced to contact the Harbourmaster at Porthmadog for the latest information.
01766 512927 / 07879 433 147, VHF 12/16
07/08/2023
Borth y Gest
Cei Balast
17 FLG 6s
15 FLG 2 5s
Bae Samson
12 Fl r 4s
Cwt powdr
Powder house
11 FLG5 20s
Traeth y Graig Ddu
Black Rock Sands
Banc y Gogledd
North bank
10 FLR 2.5s
9 FLG 4 15s
Cynghorir morwyr i beidio mordwyo dros y draethell oni bai fod o fewn 2 awr pob ochor i'r pen llanw, cychod gyda draft fwy na 1.5 i fod fewn 1.5 awr bob ochor i'r pen llanw.
The channel should not be used at any time other than 2hrs either side of high water,vessels with a draft greater than 1.5m should only use the channel 1.5 hrs either side of high water
1 FLG
2 Q FLR
3 FLG 3s
4FL R (2) 5s
6 FLR 3 10s
Trwyn Harlech Point
N
FAIRWAY
LFL W 10s
52'52.970 N 004'11.200 W
Rhybydd / Caution
Nid yw gael ei ddefnyddio ar gyfer mordwyo
Not to be used for navigation